

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

**Ysgol Bodfeurig
Tregarth, Gwynedd,
LL57 4RH**

Rhif yr ysgol: 6612013

Dyddiad yr arolygiad: 26/04/10

gan

**Gareth Wyn Jones
79820**

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/10

O dan rif contract Estyn: 1119009

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Bodfeurig fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu dysgwyr. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Bodfeurig rhwng 27/04/10 a 29/04/10, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Gareth Wyn Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei dysgwyr.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Gradd 1** da gyda nodweddion rhagorol
- Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
- Gradd 3** nodweddion da'n gorbwyso diffygion
- Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
- Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio dysgwyr ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad lawn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac ALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddysgwyr mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddysgwyr sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun

Crynodeb

Argymhellion

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogae

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Atodiadau

- 1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol
- 2 Data a dangosyddion ysgol
- 3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- 4 Sail dystiolaeth yr arolygiad
- 5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Cyd-destun

Natur y darparwr

- 1 Mae Ysgol Gynradd Bodfeurig wedi'i lleoli ar safle uchel, ar gyrion pentrefi Mynydd Llandegai a Sling, yn Nyffryn Ogwen. Fe weinyddir yr ysgol gan Awdurdod Lleol (ALI) Gwynedd.
- 2 Mae'r ysgol yn gwasanaethu dysgwyr rhwng tair ac unarddeg oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 33 o ddysgwyr ar y gofrestr a tri rhan amser yn y bore. Daw traean o'r dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith a'r gweddill o gartrefi ble siaredir Saesneg ar yr aelwyd.
- 3 Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o drawsdoriaid o gefndiroedd, rhai yn ddifreintiedig ac eraill yn freintiedig iawn. Nid yw'r ardal yn llewyrchus yn economaidd. Mae gan tua 12% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio am ddim.
- 4 Mae'r plant o dan 5 oed yn cael eu derbyn i'r dosbarth meithrin yn rhan amser yn y Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, sydd yn arwain at bresenoldeb amser llawn yn y Medi sy'n dilyn eu penblwydd yn bedair oed.
- 5 Mae'r dysgwyr yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Dim ond un o'r dysgwyr, sydd ar y gofrestr AAA ac mae un arall ar weithredu ysgol a gweithredu ysgol mwy. Nid oes dysgwyr y gofelir amdanynt gan yr ALI ar y gofrestr. Trefnir yr ysgol i ddau dosbarth, un ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 1, a'r llall ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 2.
- 6 Mae'r pennaeth mewn gofal wedi bod yn gyfrifol yn rhan-amser am yr ysgol ers Medi 2003. Mae hefyd yn gyfrifol am Ysgol Tregarth o dan sustem anffurfiol o glystyru gan yr ALI. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2004 ac fe brofwyd newidiadau mewn staffio ers hynny. Ceir dwy athrawes amser llawn.
- 7 Mae gan yr ALI raglen ar gyfer adolygu ysgolion fesul dalgylch. Maent yn rhagweld cychwyn adolygiad llawn o ddarpariaeth dalgylch Dyffryn Ogwen, sydd yn cynnwys Ysgol Bodfeurig, yn ystod haf 2011.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 8 Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion sydd yn cwmpasu ei holl waith. Mae cynllun datblygu ysgol (CDY) yn cynnwys blaenoriaethau tymor byr a thymor hir. Mae'r ysgol hefyd yn gosod targedau mewn perthynas â safonau cyrhaeddiad dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.
- 9 Mae amcanion yr ysgol yn cynnwys:
 - galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei botensial yn llawn;
 - sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol cadarn;

- cynnig i'r dysgwyr gwricwlwm cynhwysol sy'n eu hysgogi i ddysgu;
- hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth;
- darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol;a
- bod yn chwaraewr allweddol gyda darparwyr gwasanaethau eraill.

10 Yn y flwyddyn bresennol rhoddir blaenoriaeth i:

- barhau i godi safonau ysgrifennu;
- codi safonau addysg gorfforol [addysg awyr agored];
- datblygu ymhellach egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu;
- parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ac adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen;
- parhau i ddatblygu' a chofnodi Medrau Meddwl yn y cynlluniau gwaith;
- datblygu rôl monitro yr athrawon a sicrhau cynlluniau gweithredu ôl arfarnu;
- prynu adnoddau ar draws y pynciau gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu(TGCh).

Crynodeb

- 11 Mae Ysgol Gynradd Bodfeurig yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol. Mae llawer o ragoriaethau yn ansawdd yr addysg a gyflwynir. Mae'r ysgol yn gymuned gynhaliol a gofalgar ble mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyflawni safonau da. Mae'r amgylchedd yn hapus a diogel ac mae'r dysgwyr yn awyddus i ddysgu o fewn ethos arbennig iawn. Mae perthnasedd yn dda gyda nodweddion rhagorol ar bob lefel.
- 12 Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad arbennig i'r ysgol ac mae hi a'r staff yn ymrwymedig a gweithgar iawn. Mae safonau dysgu ac ansawdd y ddarpariaeth wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.
- 13 Roedd y tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol mewn chwech allan o'r saith cwestiwn allweddol. Nid oedd y tîm arolygu yn cytuno a barn yr ysgol mewn un cwestiwn allweddol a rhoddyd gradd uwch.am gwestiwn allweddol 5.

14 **Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd**

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1

Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

- 15 Niferoedd bach iawn sydd o fewn blwyddyn ysgol benodol. Yn 2009, yr oedd pedwar o ddysgwyr yn cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, a tri ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Oherwydd hyn, rhaid bod yn ofalus wrth geisio gwneud cymhariaeth deg o ddata gydag ysgolion eraill, a hefyd gyda'r teulu o ysgolion ar draws Cymru. Yn y rhestr hon o ysgolion teulu am 2009 mae Bodfeurig yn ddegfed o unarddeg ysgol ac felly yn is na'r ffigwr cyfartalog.
- 16 Yn CA 1, roedd cyrhaeddiad dysgwyr yn ôl asesiad athro cenedlaethol 2009 ar gyfer plant saith oed yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg, ac yn is mewn Mathemateg. Ni addysgir Saesneg yn CA 1. Yn CA 2, roedd cyrhaeddiad dysgwyr yn ol asesiad athro cenedlaethol 2009 ar gyfer plant un ar ddeg oed yn y Gymraeg, Saesneg gwyddoniaeth, a mathemateg yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg.

Meysydd dysgu ar gyfer plant o dan 5 oed

- 17 At ei gilydd mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau Cyfnod Sylfaen.
- 18 Mae'r graddau a ddyfrnir yn y meysydd dysgu fel a ganlyn:

Maes dysgu*	Gradd arolygu	
	Meithrin	Derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2	2
Datblygiad mathemategol	2	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad creadigol	1	1
Datblygiad corfforol	1	1

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
24%	76%	0%	0%	0%

- 19 Mae safonau cyflawniad dysgwyr yn cymharu'n dda gyda canrannau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2008-09 Prif Arolygydd ei Mawrhydi (PAEM) o

safonau sy'n dda neu well, hynny yw yn Radd 2 neu Radd 1, mewn 85% o'r gwersi, gyda 12% yn Radd 1. Cafwyd gwelliant arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd safonau ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Graddau ar gyfer y pynciau a arolygwyd yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Saesneg		Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Dylunio technoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 1	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf a dylunio	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 1
Addysg gorfforol	Gradd 1	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 20 Nid yw'r graddau uchod ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd yn adlewyrchiad o'r safonau cyrhaeddiad a arsylwyd mewn gwersi ar bob achlysur. Ni welwyd gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes yn CA 1 a celf yn CA 2. Fodd bynnag gwelwyd tystiolaeth, gan gynnwys gwaith y dysgwyr dros y ddau dymor blaenorol.
- 21 At ei gilydd, mae mwyafrif y dysgwyr, gan gynnwys y plant dan bump yn y Cyfnod Sylfaen a'r rhai hynny ag anghenion addysgol ychwanegol (ADY), yn cyflawni safonau da yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn cyrraedd eu nodau a'u targedau cytunedig.
- 22 Mae pob dysgwr yn gwneud cynydd da yn y pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddau gyfnod allweddol a Saesneg yn CA 2 ac hefyd yn y pynciau sylfaen.
- 23 Mae safonau yn y pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol yn dda. Mae safonau yn y pynciau sylfaen yn CA 1 a CA 2 yn dda gyda nodweddion rhagorol mewn technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol. Maent yn dda, gyda nodweddion rhagorol hefyd yn naearyddiaeth yn CA 1 a cerdd yn CA 2. Mae safonau yn y gweddill o'r pynciau sylfaen yn dda yn y ddau gyfnod allweddol.
- 24 Mae sgiliau allweddol a sylfaenol y plant dan bump oed a dysgwyr CA 1 a CA 2 yn dda ar y cyfan. Mae eu sgiliau gwranddo ac ysgrifennu yn dda ar draws y cwricwlwm ac mae eu sgiliau darllen yn dda iawn gyda nodweddion rhagorol.

Mae sgiliau rhifedd a'u gallu i ddatrys problemau yn dda. Mae nodweddion da i sgiliau creadigol y dysgwyr. Mae eu cymhwysedd dwyieithog a sgiliau technoleg gwybodaeth yn dda gyda nodweddion rhagorol.

- 25 Mae'r dysgwyr i gyd yn dangos ymagwedd dda iawn at eu gwaith. Maent yn gwneud defnydd da o'u hamser ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i cyfoedion, gan ddangos dyfalbarhad a'r gallu i weithio'n annibynol am gyfnodau cynyddol. Maent i gyd yn hyrwyddo dysgu eu hunain yn effeithiol gan hunan werthuso eu gwaith. Mae eu sgiliau i wella dysgu eu hunain yn dda. Mae eu gwybodaeth o'r CC yn dda iawn.
- 26 Mae safon ymddygiad y dysgwyr yn arbennig ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. 'Roedd presenoldeb yr ysgol yn 95.6% am y flwyddyn cyn yr arolygiad. Mae hyn yn well na lefelau cyfartaledd yr ALI a Chymru, ac mae lefel absenoldeb heb awdurdod yn isel iawn.
- 27 Mae prydlondeb yn dda ac mae cofrestrau yn ateb gofynion statudol. Mae strategaethau da gyda'r ysgol i gefnogi dysgwyr sydd yn absennol am amser hir. Cafodd ddim un dysgwr ei wahardd yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.
- 28 Mae'r dysgwyr yn deall egwyddorion cyfleoedd cyfartal ac yn cefnogi ei gilydd yn dda ym mhob agwedd o waith a chwarae'r ysgol. Mae'r gymuned leol yn cefnogi'r ysgol yn dda iawn.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- 29 Mae ansawdd yr addysgu, hyfforddiant ac asesu yn dda gyda nodweddion rhagorol.

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
38%	62%	0%	0%	0%

- 30 Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn cymharu'n dda gyda canrannau mwyaf diweddaraf Estyn ble mae ansawdd yr addysgu yn Radd 2 neu well mewn 85% o'r gwersi gyda 17% yn Radd 1.
- 31 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys perthynas waith rhagorol rhwng athrawon, staff cynnal a dysgwyr. Ymdrinnir â phawb yn deg ac mae disgwyliadau uchel o ran hunanddisgyblaeth. Mae cynhaliaeth ragorol i unigolion gyflawni eu tasgau ac mae ymyrraeth bwrpasol athrawon yn symud y dysgu'n ei flaen.
- 32 Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o ran cyflawniadau dysgwyr ac maent yn cyflwyno gwersi bywiog a chyffrous sy'n ennyn diddordeb a thanio eu dychymyg. Mae tasgau a gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus er mwyn cwrdd ag anghenion pob unigolyn.
- 33 Yn aml mae'r athrawon yn annog y dysgwyr i arbrofi ar eu pennau eu hunain a chymell annibyniaeth yn fwriadus gan fanteisio ar bob cyfle i feithrin sgiliau traws gwricwlaidd. Maent yn sicrhau cyfleoedd i'r dysgwyr gymryd rhan weithredol yn yr addysgu trwy eu cael i egluro i weddill y dosbarth neu arwain gweithgaredd.

- 34 Mae gan athrawon wybodaeth briodol o'r holl bynciau a addysgir ganddynt. Manteisir ar arbenigedd staff Ysgol Tregarth i ddyfnhau'r ddealltwriaeth a'r profiadau a roddir i'r dysgwyr yn dda mewn meysydd fel cerddoriaeth ac addysg gorfforol.
- 35 Mae'r trefniadau asesu yn gynhwysfawr ac yn sail i holl dargedau'r ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o brofion i ddarganfod anghenion a datblygiad y dysgwyr. Annatblygedig fodd bynnag ydy systemau tracio'r ysgol gyfan er mwyn gweld y darlun cyfan a chynllunio ymlaen yn fwy effeithiol eto.
- 36 Mae'r ysgol wedi cychwyn ar y gwaith o safoni a chymedroli asesiadau athrawon trwy gydweithio gydag ysgolion cynradd eraill. Caiff gwaith dysgwyr ei farcio'n rheolaidd a cheir sylwadau ysgrifenedig cadarnhaol sy'n nodi camau ar gyfer gwelliant. Mae adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da.
- 37 Sicrheir mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol ac addysg grefyddol. Addaswyd Cynlluniau CA 2 i ymateb i ofynion Cwricwlwm 2008 gan nodi cyfleoedd asesu a'r Fframwaith Sgiliau.
- 38 Mae cynlluniau'r Cyfnod Sylfaen yn ymateb i'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau gan sicrhau fod gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol 2000 yn weithredol ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2.
- 39 Mae darpariaeth ragorol ar gyfer dysgu'r holl fedrau allweddol ar draws yr Ysgol. Cynllunir yn fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau darllen y dysgwyr. Rhoddir pwyslais mawr ar ddefnyddio ystod eang o weithgareddau. Mae ymdrechion yr ysgol i ddarparu a chynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn rhagorol.
- 40 Ehangir profiadau dysgu drwy ddarparu cyfleoedd i'r dysgwyr ymweld â safleoedd o ddiddordeb addysgol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ar ôl ysgol gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol lleol a chenedlaethol.
- 41 Trefnir nifer o ymweliadau a phrofiadau addysgol i gyd-fynd â gwaith cwricwlaidd i nifer o safleoedd diddorol. Mae'r profiadau yn cyfoethogi nifer o agweddau cwricwlaidd yn rhagorol yn ogystal ag addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), y CC a dwyieithrwydd.
- 42 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol y dysgwyr trwy'r gwasanaethau ysgol gyfan, sy'n cydymffurfio gyda gofynion statudol, a'r gwersi addysg grefyddol.
- 43 Mae'r cyngor ysgol yn sicrhau bod cyfraniadau dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt lais yn y gwaith o redeg yr ysgol. Darperir cyfleoedd eang iddynt weithio gyda busnes lleol a defnyddir y cysylltiad i gyfoethogi eu profiadau.
- 44 Mae'r ysgol yn delio gyda rhai dan anfantais yn gymdeithasol ac yn herio stereoteipiau yn effeithiol iawn. Rhoddir cyfle cyfartal i fechgyn a merched ym mhob gweithgaredd.

- 45 Un o ragoriaethau amlwg yr ysgol yw'r sylw a roddir i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Rhoddir pwyslais mawr ar ofalu am yr amgylchedd a chadw'n iach. Maent wedi ennill y Fanner Werdd Eco 'Ysgolion, Gwobr Aur Ysgolion Gwyrdd a tair deilen o gynllun Ysgolion Iach dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r cydlynnydd ysgol wedi ennill gwobr genedlaethol Prydain sef Dinasyddiaeth Ryngwladol Byd Eang ac mae Blwyddyn Newydd Tsieiniaid ac Wythnos Ewropeaidd yn cael cryn sylw o fewn yr ysgol hefyd.
- 46 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn rhagorol. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau cynhaliol yr ALI ac maent yn cydweithio'n glòs gyda'r rhieni mewn achosion sy'n ymwneud â lles a gofal eu plant.
- 47 Cynllunnir y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn ofalus a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar les emosiynol a chyffredinol dysgwyr.
- 48 Gwnaed trefniadau da i ofalu am iechyd, diogelwch a lles dysgwyr. Mae asesiadau risg yn systematig ac mae pob aelod o staff yn effro i faterion sy'n ymwneud â lles dysgwyr.
- 49 Sefydlwyd gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol gan wahaniaethu'n briodol rhwng gwahanol fathau o absenoldebau.
- 50 Mae polisi clir a gweithdrefnau cadarn ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gadw golwg ar y dysgwyr yn gyson ac adrodd yn ôl yn syth os oes pryder. Mae polisi a threfniadau priodol ar gyfer delio ag apeliadau a chwynion.
- 51 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer. Mae trefniadau asesu manwl yr ysgol yn sicrhau bod anghenion addysgol unigolion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod staff yn ymyrryd lle bo angen.
- 52 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol, bwllian yn dda. Er mae prin yw'r enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol er mwyn sicrhau nad ydy'r dysgwyr yn cam-drin ei gilydd.
- 53 Does dim disgybl anabl yn yr ysgol ac nid yw safle wedi ei addasu yn benodol ar gyfer anabled. Mae cytundeb i gysylltu gyda'r ALI i drafod pa addasiadau fydd yn bosib os bydd angen.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 54 Mae'r gan y pennaeth mewn gofal, fel rhan o broses clystyru anffurfiol yr ALI rhwng Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth, gyfrifoldeb am Bodfeurig am 0.5 o'i hamser. Mae yn rhoi arweiniad a chyfeiriad rhagorol i Ysgol Bodfeurig.
- 55 Mae amcanion a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu mynegi yn glir a'u deall gan y staff, llywodraethwyr, rhieni a'r dysgwyr ac mae agweddau rhagorol yn y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau wrth gefnogi y dysgu a'r addysgu. Mae'r gwerthoedd hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.

- 56 Mae'r pennaeth ac arbennigwyr pynciol yn defnyddio data meincnodol, canlyniadau profion, asesiadau athrawon i osod targedau a nodau heriol a realistic l'r dysgwyr. Gosodir targedau statudol heriol ar gyfer y pynciau craidd ac mae ethos o herio'n perthyn i Ysgol Bodfeurig.
- 57 Defnyddir y drefn Rheoli Perfformiad yn effeithiol er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff. Mae'r broses hon yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i adnabod gofynion hyfforddiant mewn swydd y staff.
- 58 Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol yn eu gwaith ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys monitor ac arfarnu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth, yn dda. Mae dogfennaeth a pholisiau statudol yr ysgol yn cwrdd â gofynion. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau'r Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC). Mae partneriaethau cryf rhwng yr ysgol a darparwyr eraill.
- 59 Mae y broses o hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn dda iawn. Mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn cynnwys targedau priodol sydd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd addysgiadol y dysgwyr ac mae adnoddau yn cael eu clustnodi'n dda ar gyfer eu cyflawni. Gwneuthpwyd cynnydd da gyda nodweddion rhagorol wrth ymateb i argymhellion arolygiad 2004 .
- 60 Mae nifer digonol o athrawon ac mae ganddynt y cymhwysterau, arbennigedd a phrofiad i gyflawni eu cyfrifoldebau yn dda iawn. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cyd-gynllunio ac yn cyd weithio yn effeithiol iawn. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu agweddau o ragoriaeth.
- 61 Mae'r dysgwyr yn cael mynediad at adnoddau dysgu priodol a digonol, sy'n cyfateb i'w hanghenion. Mae gofod yn yr adeilad a'r safle o ansawdd da ar y cyfan ac yn ddigonol ar gyfer nifer y dysgwyr. Mae safon glanweithdra yn uchel iawn ac mae arddangosfeydd atyniadol o waith y dysgwyr ar waliau yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu arbennig. Gwneir defnydd da o iard a chae yr ysgol wrth drefnu gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a fitrwydd y dysgwyr o fewn cynllun Ysgolion Iach.
- 62 Mae'r adnoddau yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol ar y cyfan. Defnyddir offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda iawn, ac mae llyfrgell atyniadol yn cynnwys amrediad o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg i ddysgwyr o bob oedran a gallu.
- 63 Mae'r staff yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd perthnasol ac mae pob aelod o'r staff yn cael amser prodol i gynllunio a darparu gwaith. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn parhau l symud yr ysgol ymlaen mae angen i'r ysgol wneud y canlynol:

A1 cynnal a datblygu y safonau da ac at anelu at ragoriaeth yn y pynciau a'r meysydd perthnasol;

A2 datblygu a chyflwyno sistem dracio asesu ysgol gyfan;

A3 cynnal y rhagoriaeth o fewn safonau dwyieithrwydd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu Tc h G;

A4 sefydlogi rheolaeth yr ysgol o fewn cynlluniau Awdurdod Addysg Gwynedd i adolygu ysgolion y clwstwr yn 2011.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 64 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Mae safonau cyflawniad dysgwyr yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
24%	76%	0%	0%	0%

- 65 Mae safonau cyflawniad dysgwyr yn cymharu'n dda gyda'r canrannau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2008-09 Prif Arolygydd ei Mawrhydi (PAEM) o safonau sy'n dda neu well, hynny yw yn Radd 2 neu Radd 1, mewn 85% o'r gwersi, gyda 12% yn Radd 1. Cafwyd gwelliant arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd safonau ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.
- 66 Yn CA 1, roedd cyrhaeddiad dysgwyr yn ol asesiad athro cenedlaethol 2009 ar gyfer plant saith oed yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg, ac yn is mewn Mathemateg.
- 67 Yn CA 2, roedd cyrhaeddiad dysgwyr yn ol asesiad athro cenedlaethol 2009 ar gyfer plant un ar ddeg oed yn y Gymraeg, Saesneg gwyddoniaeth, a mathemateg yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg.
- 68 Niferoedd bach iawn sydd o fewn blwyddyn ysgol benodol. Yn 2009, yr oedd pedwar o ddysgwyr yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA 1, a tri ar ddiwedd CA 2. Oherwydd hyn, rhaid bod yn ofalus wrth geisio gwneud cymhariaeth deg o ddata gydag ysgolion eraill, a hefyd gyda'r teulu o ysgolion ar draws Cymru.

Yn y rhestr hon o ysgolion teulu am 2009 mae Bodfeurig yn ddegfed o unarddeg ysgol ac felly yn is na'r ffigwr cyfartalog.

Graddau ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd

Maes dysgu*	Gradd arolygu	
	Meithrin	Derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2	2
Datblygiad mathemategol	2	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad creadigol	1	1
Datblygiad corfforol	1	1

- 69 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at y Cyfnod Sylfaen.

Graddau pwnc ar gyfer y pynciau a arolygwyd

Pwnc	Cyfnod Allweddol	Cyfnod Allweddol
	1	2
Cymraeg iaith gyntaf	Gradd 2	Gradd 2
Saesneg		Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth cyfathrebu	Gradd 1	Gradd 1
Dylunio technoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 1	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Celf a dylunio	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 1
Addysg Gorfforol	Gradd 1	Gradd 1
Addysg Grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- 70 Nid yw'r graddau uchod ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd yn adlewyrchiad o'r safonau cyrhaeddiad a arsylwyd mewn gwersi ar bob achlysur. Ni welwyd gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes yn CA 1 a celf yn CA 2. Fodd bynnag gwelwyd tystiolaeth, gan gynnwys gwaith y dysgwyr dros y ddau dymor blaenorol.
- 71 At ei gilydd, mae mwyafrif y dysgwyr, gan gynnwys y plant dan bump yn y Cyfnod Sylfaen a'r rhai hynny ag anghenion addysgol ychwanegol (ADY), yn cyflawni safonau da yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn cyrraedd eu nodau a'u targedau cytunedig.

- 72 Mae pob dysgwr yn gwneud cynydd da yn y pynciau craidd sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddau gyfnod allweddol a Saesneg yn CA 2 ac hefyd yn y pynciau sylfaen.
- 73 Mae safonau yn y pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol yn dda. Mae safonau yn y pynciau sylfaen yn CA 1 a CA 2 yn dda gyda nodweddion rhagorol mewn technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol. Maent yn dda, gyda nodweddion rhagorol hefyd yn naeryddiaeth yn CA 1 a cerdd yn CA 2. Mae safonau yn y gweddill o'r pynciau sylfaen yn dda yn y ddau gyfnod allweddol.
- 74 Gwna'r dysgwyr gyda ADY gynnydd da o ran eu cyrhaeddiad blaenorol a'u gallu sylfaenol waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. Gwna mwyafrif helaeth y dysgwyr gynnydd da, o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol, tuag at ddiwallu eu potensial.
- 75 Mae sgiliau allweddol a sylfaenol y plant dan bump oed yn dda ar y cyfan. Mae eu sgiliau siarad yn y ddwy iaith yn dda, ac maent yn datblygu cymhwysedd da mewn ysgrifennu. Maent yn darllen yn dda gyda nodweddion rhagorol ac mae eu sgiliau rhif yn dda.
- 76 Mae'r dysgwyr i gyd yn dangos ymagwedd dda iawn at eu gwaith. Maent yn gwneud defnydd da o'u hamser ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i cyfoedion, gan ddangos dyfalbarhad a'r gallu i weithio'n annibynol am gyfnodau cynnyddol. Mae datblygiad personol, cymdeithasol a moesol y plant yn y blynyddoedd cynnar yn datblygu'n dda iawn.
- 77 Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig o ran cymhwysedd dysgwyr yn y sgiliau sylfaenol ac allweddol yn CA 1 a CA 2. Mae nodweddion rhagorol i'w cymhwysedd dwyieithog a sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae eu sgiliau gwrando ac ysgrifennu yn dda ar draws y cwricwlwm ac mae eu sgiliau darllen yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn a ddarllenent.
- 78 Mae sgiliau rhifedd a'u gallu i ddatrys problemau yn dda. Gwneir ddefnydd effeithiol ganddynt o'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae nodweddion da i sgiliau creadigol y dysgwyr ac maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau gan gefnogi ei gilydd yn effeithiol.
- 79 Mae sgiliau i wella dysgu eu hunain yn dda. Maent i gyd yn hyrwyddo dysgu eu hunain yn effeithiol gan hunan werthuso eu gwaith a defnyddio nodau ac amcanion eu gwersi yn aml fel meini prawf. Mae eu gwybodaeth o'r CC yn dda iawn, ac yn seiliedig ar wybodaeth o ddigwyddiadau hanesyddol, a daeryddol yr ardal leol.
- 80 Mae safon ymddygiad y plant yn dda gyda nodweddion rhagorol mewn pob agwedd o fywyd yr ysgol. Maent yn gwrtais at oedolion ac a'i gilydd, ac yn groesawus iawn tuag at ymwelwyr.

- 81 'Roedd presenoldeb yr ysgol yn 95.6% am y flwyddyn cyn yr arolygiad. Mae hyn yn well na lefelau cyfartaledd yr ALI a Chymru ac mae lefel absenoldeb heb awdurdod yn isel iawn.
- 82 Mae prydlondeb yn dda ac mae cofrestru yn ateb gofynion statudol. Caiff data presenoldeb ei ddadansoddi yn wythnosol drwy feddalwedd cyfrifiadurol.
- 83 Mae strategaethau da gan yr ysgol i gefnogi plant sydd yn absennol am amser hir. Ni chafodd neb ei wahardd yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.
- 84 Mae'r plant yn deall egwyddorion cyfleoedd cyfartal ac yn cefnogi ei gilydd yn dda ym mhob agwedd o waith a chwarae'r ysgol. Maent yn astudio Cristionogaeth ac amryw o grefyddau eraill ac yn dysgu am sawl diwylliant o gwmpas y byd drwy gysylltiadau da iawn gyda gwledydd eraill.
- 85 Mae'r dysgwyr yn dangos gwybodaeth dda o fyd gwaith a hefyd o hanes a diwylliant y gymuned lleol. Hyrwyddir hyn trwy yr amryw gyfleoedd arbennig a ddarparwyd iddynt i ymweld â llawer o safleoedd diddorol thrwy'r ymwelwyr sydd yn dod i'r ysgol. Mae'r gymuned leol yn cefnogi'r ysgol yn dda iawn.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 86 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

- 87 Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
38%	62%	0%	0%	0%

- 88 Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn cymharu'n dda gyda canrannau mwyaf diweddaraf Estyn ble mae ansawdd yr addysgu yn Radd 2 neu well mewn 85% o'r gwersi, gyda 17% yn Radd 1.
- 89 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys perthynas waith rhagorol rhwng athrawon, staff cynnorthwyol a dysgwyr. Ymdrinnir â phawb yn deg ac mae disgygliadau uchel o ran hunanddisgyblaeth. Mae cynhaliaeth ragorol i unigolion gyflawni eu tasgau ac mae ymyrraeth bwrpasol athrawon yn symud y dysgu'n ei flaen.
- 90 Mae gan yr athrawon ddisgygliadau uchel iawn o ran cyflawniadau dysgwyr. Maent yn cyflwyno gwersi bywiog a chyffrous sy'n ennyn diddordeb a thanio eu dychymyg. Mae tasgau a gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus er mwyn cwrdd ag anghenion pob unigolyn.
- 91 Yn aml mae'r athrawon yn annog y dysgwyr i arbrofi ar eu pennau eu hunain a chymell annibyniaeth yn fwiadus gan fanteisio ar bob cyfle i feithrin sgiliau

traws gwricwlaidd. Maent yn sicrhau cyfleoedd da i'r dysgwyr gymryd rhan weithredol yn yr addysgu trwy eu cael i egluro i weddill y dosbarth neu arwain gweithgaredd.

- 92 Llwydda'r athrawon a'r staff cynnal i gymell a chynnal diddordeb yr holl ddysgwyr ar draws yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n rhagorol fel aelodau a'r tîm dysgu ac yn gwneud pob ymdrech i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth.
- 93 Mae gan athrawon wybodaeth briodol o'r holl bynciau a addysgir ganddynt. Manteisir ar arbenigedd staff Ysgol Tregarth i ddyfnhau'r ddealltwriaeth a'r profiadau a roddir i'r dysgwyr yn dda mewn meysydd fel cerddoriaeth ac addysg gorfforol.
- 94 Cynllunnir y gwersi'n drwyadl ar gyfer yr holl oedrannau a'r holl ystod gallu. Rhennir nodau prawf llwyddiant gyda'r dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn mae'n ddisgwyliedig iddynt ei ddysgu a'i gyflawni yn ystod y cyfnod. Anogir y dysgwyr i fod yn rhan o'r broses o adnabod meini prawf llwyddiant ac o werthuso eu cyflawniadau.
- 95 Cyflwynir gwersi mewn ffordd wybodus, fedrus a dychmygus a defnyddir amrediad eang o strategaethau addysgu a dysgu gan gynnwys gwaith grŵp, gwaith pâr, unigol a dosbarth cyfan. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal a rhoddir blaenoriaeth uchel i ddatblygu hyfedredd dwyieithog y dysgwyr. Defnyddiant ystod eang o adnoddau gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol, yn effeithiol er mwyn hyrwyddo dysgu ac addysgu.
- 96 Mae'r trefniadau asesu yn gynhwysfawr ac yn sail i holl dargedau'r ysgol. Mae'r athrawon yn adnabod y dysgwyr yn dda iawn ac yn cynllunio ystod o ddulliau addas i asesu eu cynnydd. Rhoddir cyfleoedd cyson i'r dysgwyr i hunan asesu ac i ddatlu llwyddiannau gan gynnwys cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 97 Cofnodir cynnydd pob dysgwr yn holl bynciau'r CC yn fanwl a nodir yn glir y camau nesaf ar gyfer gwelliant. Gwneir defnydd effeithiol o brofion i ddarganfod anghenion a datblygiad y dysgwyr.
- 98 Mae'r gwaith asesu yn sicrhau fod targedau unigol i bob unigolyn a chaiff y dysgwyr ran yn y broses trwy osod targedau heriol iddynt eu hunain. Cedwir y dystiolaeth ran amlaf yn eu ffeiliau unigol y dysgwyr. Annatblygedig fodd bynnag ydy systemau tracio'r ysgol gyfan er mwyn gweld y darlun cyfan a chynllunio ymlaen yn fwy effeithiol eto.
- 99 Mae'r ysgol wedi cychwyn ar y gwaith o safoni a chymedroli asesiadau athrawon trwy gydweithio gydag ysgolion cynradd eraill ac ysgol gyfun lleol i lunio portffolios pwnc.
- 100 Caiff gwaith dysgwyr ei farcio'n rheolaidd a cheir sylwadau ysgrifenedig cadarnhaol sy'n nodi camau ar gyfer gwelliant. Bydd dysgwyr yn hunanasesu eu gwaith ochr yn ochr â'r athrawon wrth iddynt farcio'u gwaith.
- 101 Mae adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da a rhoddant wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant ym mhob pwnc ynghyd â sylwadau buddiol am eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 102 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 103 Cynigir ystod helaeth o brofiadau trwy'r ysgol ar ddull thematig sydd wedi eu croes gyfeirio i sgiliau ac ystod pynciau y CC. Sicrheir mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol ac addysg grefyddol. Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn ateb gofynion ystod eang y dysgwyr. Addaswyd cynlluniau CA 2 i ymateb i ofynion Cwricwlwm 2008 gan nodi cyfleoedd asesu a'r Fframwaith Sgiliau.
- 104 Mae cynlluniau'r Cyfnod Sylfaen yn ymateb i'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau gan sicrhau fod gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol 2000 yn weithredol ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2. Sicrheir fod y pynciau yn cael dyraniad amser addas dros y tymor a bod dilyniant priodol ym mhrofiadau'r dysgwyr.
- 105 Mae darpariaeth ragorol ar gyfer dysgu'r holl fedrau allweddol ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau darllen y dysgwyr gan gynnwys cyfnodau wythnosol o rannu'r dysgu rhwng y cyfnodau allweddol. Rhoddir pwyslais mawr ar ddefnyddio ystod eang o weithgareddau gan gynnwys gemau iaith, chwilio am wybodaeth, darllen grŵp, trafod llyfrau, darllen unigol ac i gynulleidfa. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygiad darllen a sillafu'r dysgwyr o'r ieuengaf i'r hynaf.
- 106 Mae ymdrechion yr ysgol i ddarparu a chynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn rhagoriaeth amlwg. Mae hyn yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Y Gymraeg ydy prif gyfrwng yr addysgu a bywyd yr ysgol a chynllunnir cyfleoedd i ddatblygu medrau Saesneg y dysgwyr.
- 107 Ehangir profiadau dysgu'r dysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd iddynt ymweld â safleoedd o ddiddordeb addysgol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fel y Clwb Dwylo Prysus, ymarfer ar gyfer eisteddfodau a gweithgareddau eraill megis canŵio, cerdded, ymarfer ar wal ddringo, a nofio.
- 108 Trefnir nifer o ymweliadau a phrofiadau addysgol i gyd-fynd â gwaith cwricwlaidd i safleoedd fel Castell Penrhyn, Amgueddfa Lechi Llanberis, Fferm Blaen y Nant, ymweliadau Comisiwn Coedwigaeth a'r Galeri yng Nghaernarfon. Trefnir cyfnodau preswyl i Lan-llyn ac i Gaerdydd. Mae'r profiadau yn cyfoethogi nifer o agweddau cwricwlaidd yn rhagorol yn ogystal ag ABCh, y CC a dwyieithrwydd.
- 109 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol y dysgwyr trwy'r gwasanaethau ysgol gyfan a'r gwersi addysg grefyddol sy'n cydymffurfio a gofynion statudol. Rhoddir cryn bwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o'u rôl yn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg mewn gweithgareddau diwylliannol lleol a chenedlaethol ac yn hyrwyddo'r CC yn effeithiol iawn.

- 110 Mae cyfarfodydd y cyngor ysgol yn gyfle i'r dysgwyr i rannu syniadau ar agweddau elusennol a threfniadau codi arian. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan amlwg mewn penderfyniadau busnes a menter gan benderfynu ar flaenoriaethau gwariant.
- 111 Darperir cyfleoedd eang i'r dysgwyr weithio gyda busnes lleol a defnyddir y cysylltiad i gyfoethogi profiadau'r dysgwyr. Mae plantr y Cyfnod Sylfaen yn meithrin profiadau trwy chwarae rôl. Cafodd y dysgwyr gyfle i gydweithio ag adeiladwyr i greu bocs tywod a defnyddio brics a sment; creu bocsys adar a bwrdd o'r coed welsant yn cael eu torri yn y goedwig. Datblygi'r medrau menter y dysgwyr yn rhagorol trwy'r siop ffrwythau, nwyddau Nadolig a gwerthu planhigion. Prynwyd offer iard ar gais y cyngor ysgol gyda'r elw.
- 112 Mae'r ysgol yn delio â'r rhai dan anfantais yn gymdeithasol ac yn herio stereoteipiau yn effeithiol iawn. Rhoddir cyfle cyfartal i fechgyn a merched ym mhob gweithgaredd gan gynnwys timoedd pêl-droed bechgyn a marchod mewn addysg gorfforol, gwaith celf a thrwy weithgareddau ABCH.
- 113 Mae'r ysgol yn hyrwyddo priodoleddau Cenedlaethol LICC yn llwyddiannus. Un o ragoriaethau amlwg yr ysgol ydy'r sylw a roddir i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Rhoddir pwyslais mawr ar ofalu am yr amgylchedd a chadw'n iach.
- 114 Maent wedi ennill y Faner Werdd Eco 'Ysgolion, Gwobr Aur Ysgolion Gwyrdd a tair ddeilen o gynllun Ysgolion Iach dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r cydlynnydd ysgol wedi ennill gwobr genedlaethol Prydain sef Dinasyddiaeth Ryngwladol Byd Eang ISA ac mae Blwyddyn Newydd Tsieiniaid ac Wythnos Ewropeaidd yn cael cryn sylw o fewn yr ysgol hefyd.
- 115 Mae'r dysgwyr a staff yn rhoi sylw da i bwysigrwydd arbed dŵr ac ynni yn y darpariaeth ac mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth ddefnyddio cysylltiadau gyda partneriaethau i gyfoethogi y cwricwlwm.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 116 Mae'r canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 117 Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn rhagorol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn ofalgar iawn ohonynt a hwythau yn troi atynt yn hollol naturiol am gymorth.
- 118 Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau gofal a chynhaliadau yn rhagorol. Maent yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn cynllunio'n fwriadus i gwrdd â gofynion unigolion. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau cynhaliol

- yr ALI ac maent yn cydweithio'n glòs gyda'r rhieni mewn achosion sy'n ymwneud â lles a gofal eu plant.
- 119 Tystia'r rhieni eu bod yn fodlon iawn gyda'r cymorth a'r cyfarwyddyd a ddarperir a bod eu plant yn hynod hapus yn yr ysgol. Mae plant newydd yn y dosbarth meithrin a'r rheini a ddaw i'r ysgol yn ystod y flwyddyn, yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel.
 - 120 Cynllunnir y ddarpariaeth ar gyfer ABCCh yn ofalus a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar les emosiynol a chyffredinol dysgwyr. Mae'r staff yn rôl fodolau da a rhoddir cryn bwyslais ar wahaniaethu rhwng gwerthoedd da a drwg ac ar godi hyder a hunan-barch.
 - 121 Mae'r cyngor ysgol yn sicrhau bod cyfraniadau dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt lais yn y gwaith o redeg yr ysgol.
 - 122 Gwnaed trefniadau da i ofalu am iechyd, diogelwch a lles. Mae asesiadau risg yn systematig ac mae pob aelod o staff yn effro i faterion sy'n ymwneud â lles dysgwyr. Gwneir pob ymdrech i sicrhau diogelwch unigolion a cheir gweithdrefnau clir ar gyfer eu trosglwyddo i ofal eu rhieni ar ddiwedd y dydd.
 - 123 Sefydlwyd gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr. Gwobrwyir ymddygiad a phresenoldeb da gyda sticeri a gwobrau yn dymhorol ac mae'r ysgol hefyd yn cydnabod ymddygiad da a llwyddiant y tu allan i'r ysgol. Mae presenoldeb llawn yn denu tystysgrifau a gwobrau bach pob tymor, a thystysgrif a gwobr sylweddol am bresenoldeb llawn am y flwyddyn gyfan.
 - 124 Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol gan wahaniaethu'n briodol rhwng gwahanol fathau o absenoldebau. Mae system gadarn yn ei lle i ffonio cartrefi dysgwyr sydd yn absennol heb esboniad ar y bore cyntaf.
 - 125 Mae polisi clir a gweithdrefnau cadarn ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gadw golwg ar y dysgwyr yn gyson ac adrodd yn ôl yn syth os oes pryder. Mae polisi a threfniadau priodol ar gyfer delio ag apeliadau a chwynion.
 - 126 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer. Mae trefniadau asesu manwl yr ysgol yn sicrhau bod anghenion addysgol unigolion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod staff yn ymyrryd lle bo angen. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu paratoi ac maent yn cynnwys targedau gwelliant addas ar gyfer dysgwyr. Fe'u hadolygir yn rheolaidd a chynhwysir y rhieni yn y broses.
 - 127 Mae'r cymorthyddion dysgu yn aelodau effeithiol iawn o'r Tim Dysgu ac yn derbyn arweiniad a chanllawiau cadarn gan yr athrawon dosbarth.
 - 128 Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol, bwllian yn dda. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella yn sylweddol ers yr arolygiad blaenorol.
 - 129 Mae'r ysgol yn cydnabod amrywiaeth cefndiroedd ei dysgwyr ac yn ymdrin â phob sefyllfa mewn ffordd gadarn a theg.
 - 130 Mae'r ysgol yn hybu cydberthnasau da drwy greu nifer o gysylltiadau rhagorol gydag ysgolion a gwledydd tramor a drwy weithgareddau mewn gwersi.

- 131 Er mae prin yw'r enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol er mwyn sicrhau nad ydy'r dysgwyr yn cam-drin ei gilydd. Maent yn defnyddio'r bocs pryder i ofyn i athrawon am sgwrs gyfrinachol.
- 132 Does dim dysgwr anabl yn yr ysgol ac nid ydi'r safle wedi ei addasu yn benodol ar gyfer anabledd. Mae cytundeb i gysylltu gyda'r All i drafod pa addasiadau fydd yn bosib os bydd angen.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 133 Mae canfyddiadau'r tim arolygu yn wahanol i'r dyfarniad Gradd 2 a wnaed gan yr ysgol i'r cwestiwn hwn. Mae rhagoriaethau yng nghwestiwn allweddol 5 mewn agweddau o reolaeth ac arweiniad nad yw'r ysgol wedi rhoi llawn ystyriaeth iddynt.
- 134 Mae'r tim o'r farn nad yw'r ysgol wedi rhoi llawn ystyriaeth i ddylanwad rheolwyr ac arweinwyr ar y gwelliannau sylweddol mewn safonau, o feincnod isel iawn yn ystod yr arolwg diwethaf.
- 135 Mae rhain yn cynnwys arweiniad rhagorol y pennaeth mewn gofal, a'r arbennigwyr pwnc, a'r gweithdrefnau rheolaethol effeithiol sydd wedi cyfrannu at gynnydd rhagorol ers yr arolygiad diwethaf.
- 136 Mae yn rhoi arweiniad a chyfeiriad rhagorol i Ysgol Bodfeurig. Mae'r gan y pennaeth mewn gofal, fel rhan o broses clystyru anffurfiol yr Awdurdod Addysg rhwng Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth, gyfrifoldeb am Bodfeurig am .5 o'i hamser.
- 137 Mae amcanion a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu mynegi yn glir a'u deall gan y staff, llywodraethwyr, rhieni a'r dysgwyr. Mae'r gwerthoedd hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb.
- 138 Cyflawna'r staff eu cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda iawn. Mae agweddau rhagorol yn y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau wrth gefnogi y dysgu a'r addysgu. Maent yn defnyddio data meincnodol, canlyniadau profion, asesiadau athrawon i weithio gyda'r pennaeth i osod targedau a nodau heriol a realistic.

- 139 Mae swydd disgrifiadau addas ar gyfer pob aelod o staff. Defnyddir y drefn Rheoli Perfformiad yn effeithiol er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff. Mae'r broses hon yn cael ei ddefnyddio yn dda iawn i adnabod gofynion hyfforddiant mewn swydd unigolion. Cytunir yr amcanion penodol ar gyfer pob aelod o staff sy'n gysylltiedig a'u datblygiad proffesiynol a blaenoriaethau'r CDY.
- 140 Gosodir targedau statudol heriol ar gyfer y pynciau craidd ac mae pob dysgwr yn derbyn targedau unigol ar gynnydd mewn safonau. Mae ethos o herio'n perthyn i Ysgol Bodfeurig.
- 141 Mae rheolwyr yn hyrwyddo partneriaethau cryf rhwng yr ysgol a darparwyr eraill, gan gynnwys ysgolion y dalgylch i gymedroli ac asesu, yn ogystal a chreu pecynnau trosglwyddo. Mae'r cysylltiadau da gyda choleg addysg bellach a choleg uwch cyfagos yn ehangu profiadau a gorwelion y staff a'r dysgwyr.
- 142 Mae'r corf llywodraethol yn effeithiol yn eu gwaith ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys monitro ac arfarnu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn dda.
- 143 Mae dogfennaeth a pholisïau statudol yr ysgol yn cwrdd â gofynion, ac yn cynnwys prosectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol mwyaf diweddar Llywodraethol i'r rhieni. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau'r LLCC.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 144 Mae'r canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 145 Mae nifer dda iawn o strategaethau hunan arfarnu wedi eu sefydlu yn yr ysgol gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi, gwerthuso cynlluniau, edrych ar lyfrau, a trafod gyda dysgwyr. Mae yn broses cynhwysfawr ac effeithiol iawn.
- 146 Mae'r pennaeth ac arbennigwyr pwnc, athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n effeithiol i'r broses ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda iawn wrth gynllunio am welliannau. Mae agweddau o'r broses hunan arfarnu yn rhagorol.
- 147 Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn dda iawn. Mae'n cyflwyno barn glir ar bob agwedd o fywyd yr ysgol ar sail tystiolaeth uniongyrchol dibynadwy. Defnyddir holiaduron yn dda iawn i ennyn barn dysgwyr, athrawon a rhieni, ac mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu at y broses. Mae'r adroddiad yn glir gyda argymhellion priodol am welliannau.
- 148 Mae pawb sydd yn cyfrannu at y broses o hunan arfarnu yn deall y trefniadau ac yn cyfrannu'n llawn iddynt. Mae hunan arfarnu yn sail effeithiol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer y CDY. Mae hefyd yn cyfrannu tystiolaeth i'w ddefnyddio gan rheolwyr yr ysgol wrth iddynt adnabod anghenion hyfforddiant mewn swydd y staff.
- 149 Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau priodol ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth, ac yn eu defnyddio i bennu targedau a blaenoriaethau priodol. Mae perfformiad yr ysgol yn cael ei fonitro yn gyson ac mae'r llywodraethwyr, pennaeth a'r staff yn ymrwymedig i gynnal a gwella safonau.
- 150 Defnyddia'r ysgol adroddiadau cefnogol gan yr Awdurdod Addysg. Maent yn seiliedig ar werthuso perfformiad yr ysgol, adroddiadau dadansodol yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, a defnydd effeithiol o ddata. Maent yn ddefnyddiol iawn i'r ysgol.
- 151 Mae'r CDY yn cynnwys targedau priodol sydd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd addysgiadol y dysgwyr. Mae adnoddau yn cael eu clustnodi'n dda ar gyfer cyflawni priodoleddau y CDY.
- 152 Gwneuthpwyd cynnydd da iawn i fynd i'r afael â argymhellion arolygiad 2004.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

- 153 Mae'r canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 154 Mae nifer digonol o athrawon ac mae ganddynt y cymhwysterau, arbennigedd a phrofiad i gyflawni eu cyfrifoldebau yn dda iawn. Mae gan y cymorthyddion dosbarthiadau gymhwysterau priodol ac maent yn effeithiol iawn yn eu gwaith. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cyd-gynllunio ac yn cyd weithio yn effeithiol iawn er mwyn cyflwyno profiadau addysgol cyfoethog i'r dysgwyr. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu agweddau o ragoriaeth.
- 155 Mae'r dysgwyr yn cael mynediad at adnoddau dysgu priodol a digonol, sy'n cyfateb i'w hanghenion. Mae'r ysgol wedi darparu rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau allanol i'r gymuned. Gwneir defnydd dda iawn o adnoddau'r amgylchfyd leol i gyfoethogi profiadau addysgol y dysgwyr.
- 156 Mae gofod yr adeilad a'r safle o ansawdd da ar y cyfan ac yn ddigonol ar gyfer nifer y dysgwyr. Mae safon glanweithdra yn uchel iawn ac mae arddangosfeydd atyniadol o waith y dysgwyr ar waliau y dosbarthiadau a'r corridorau. Mae hyn yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu arbennig. Mae cae a buarth yr ysgol yn addas i'r pwrpas a gwneir defnydd dda ohono wrth drefnu gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a fitrwydd y dysgwyr o fewn cynllun Ysgolion Iach.
- 157 Mae'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys adnoddau cyllidol, yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol ar y cyfan. Defnyddir offer technoleg gwybodaeth yn dda iawn i gyfoethogi profiadau'r dysgwyr ac mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a chyfrifiaduron i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.
- 158 Mae llyfrgell atyniadol yn cynnwys amrediad o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg sy'n addas ar gyfer dysgwyr o bob oedran a gallu.
- 159 Mae staff addysgu a chefnogi yn cael eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu yn dda iawn. Ychwanegir at arbenigedd yr ysgol drwy ddefnyddio staff Ysgol Tregarth i roi arweiniad a chefnogaeth i agweddau o'r cwricwlwm. Mae cyd-weithio rhwng staff y ddwy ysgol yn gynhaliol effeithiol.
- 160 Mae'r staff yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd perthnasol. Trefnir nifer gan yr ALI ar ddatblygiadau cyfredol ym myd addysg a gwelir dystiolaeth o effaith rhai o' cyrsiau hyn ar ansawdd uchel yr addysgu.
- 161 Mae pob aelod o'r staff yn cael amser priodol i gynllunio a darparu gwaith. O ganlyniad mae ansawdd da iawn i'r cynllunio ac mae hyn yn cael dylanwad uniongyrchol ar safonau.
- 162 Mae'r ysgol yn pennu blaenoriaethau priodol a darparu adnoddau addas i'w cyflawni. Mae defnydd yr adnoddau yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y

pennaeth a'r llywodraethwyr a'r ALI. Maent yn gwirio eu heffeithlonrwydd ac mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Plant o dan 5 oed

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 163 Gwna'r plant gynnydd rhagorol yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.
- 164 Mae'r plant yn cydweithio'n arbennig gyda'i gilydd a chyda'r cymorthyddion gan holi am gymorth yn hyderus oddi wrth eu cyfoedion a'r oedolion.
- 165 Maent yn mwynhau cyd-weithio ar dasgau ac yn cyd chwarae yn hapus gyda'i gilydd.a dysgwyr hŷn.
- 166 Dangosant amynedd a pharch tuag at eraill a'r amgylchedd chwarae wrth aros tro a rhannu adnoddau.

Nodweddion da

- 167 Ymglymerant â chyfrifoldeb yn barod iawn ac arddangosant lefelau uchel o ganolbwyntio ac annibyniaeth.
- 168 Dangosant gonsyrn tuag at eraill ac maent yn barod iawn i helpu ei gilydd.
- 169 Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd glanweithdra ac yn gwisgo a dad wisgo esgidiau glaw, cot gynnes a ffedog yn annibynnol.

Diffygion

- 170 Nid oes diffygion pwysig.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 171 Mae'r plant I gyd yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn ymuno'n frwdfrydig drwy ddefnyddio ymadroddion cyfarwydd. Mae'r mwyafrif yn cyfathrebu'n

hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg er mai ail iaith yw i'r mwyafrif, ac maent yn defnyddio geirfa newydd yn gywir a hyderus.

- 172 Dangosant ddiddordeb mawr mewn llyfrau ac mae eu sgiliau darllen yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif yn adnabod llythrennau ac yn ymdrechu i ddarllen geiriau a brawddegau syml.
- 173 Mae ganddynt afael da ar sgiliau ysgrifennu cynnar gydag unigolion yn ysgrifennu brawddegau byrion gyda chymorth.
- 174 Defnyddiant amrywiaeth o offer i wneud marciau ar bapur. Cysylltant sŵn a symbol nifer o lythrennau,
- 175 Gallant enwi nifer o bethau sy'n dechrau gyda'r un lythyren yn hyderus gan gynnwys llythrennau dwbwl.

Diffygion

- 176 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad mthemategol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 177 Mae'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae sgiliau cyfrifo'r plant yn gadarn dda ac maent yn llwyddo llwyddo i gyfrif yn y pen ac ar bapur.
- 178 Gallant enwi darnau arian a'u defnyddio i gyfrif cyfansymau syml yn dda.
- 179 Mae eu medrau mesur a chyfaint yn datblygu'n dda a gallant enwi unedau centimetrau a milimedrau yn dda.
- 180 Maent yn adnabod siapiau dau a thri dimensiwn yn hyderus gan nodi gwahaniaethau rhyngddynt.
- 181 Dechreuant ddeall a defnyddio termau megis 'mwy' a 'llai' yn gywir wrth gymharu gwahanol setiau. Defnyddiant ystod o ddeunyddiau mathemategol yn hyderus a chywir.

Diffygion

- 182 Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 183 Gwna'r plant gynnydd rhagorol mewn ystod eang o elfennau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.
- 184 Maent yn datblygu sgiliau ymholi ac ymchwilio yn rhagorol gan ddangos chwifrydedd mawr yn y byd o'u cwmpas.
- 185 Maent yn mwynhau archwlio a defnyddio'r gwrthrychau yn y lle darganfod ac yn defnyddio ystod eang o raglenni TG, y camera digidol a BeeBot yn hyderus iawn.

Nodweddion da

- 186 Maent yn defnyddio ystod o adnoddau yn effeithiol i greu 'alien' gyda'r clai sgleimiog.
- 187 Maent yn arbrofi yn frwdfrydig gyda gole adlewyrchiol yn y gornel dywyll, dywll.
- 188 Gwnat ddefnydd effeithiol o'r corneli chwarae rol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o fywyd yn y gofod. Maent yn dangos parch at grefyddau eraill wrth greu 'yad' ac yn gwrandao'n astud ar storïau crefyddol.

Diffygion

- 189 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 190 Gwna'r plant gynnydd rhagorol yn eu datblygiad creadigol.
- 191 Maent yn defnyddio paent yn hyderus ac yn barod i greu paentiadau yn fedrus iawn wrth wneud lluniau creadigol.

Nodweddion da

- 192 Maent yn arsylwi'n fanwl ar nodweddion gwrthrychau er mwyn eu darlunio gywir.
- 193 Dangosant ddealltwriaeth o ba liwiau sy'n creu lliwiau eraill. Maent yn trin offer paentio, gludio a siswrn yn ofalus a medrus.

- 194 Canant nifer o ganeuon yn dda ac maent yn eu perfformio'n frwdfrydig.
- 195 Maent yn symud yn dda i symbyliadau corfforol ac yn mwynhau rheoli'r parasiwt wrth gyd chwarae

Diffygion

- 196 Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad corfforol

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 197 Mae'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu datblygiad corfforol.
- 198 **Mae eu medrau llawdrin yn datblygu'n dda wrth iddynt drafod pensiliau, brwshys, creonau a llygoden y cyfrifiadur.**

Nodweddion da

- 199 Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn hyderus wrth gyflawni ymarferiadau corfforol.
- 200 Defnyddiant amrywiaeth dda o offer mawr gyda hyder cynyddol a dangosant reolaeth gorfforol briodol wrth iddynt gerdded, rhedeg, sgipio, neidio a hercian ymlaen ac yn ol.
- 201 Maent yn arddangos medrau pedlo a llywio da wrth ddefnyddio teganau mawr yn yr ardal tu allan.

Diffygion

- 202 Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 203 Mae gallu'r holl ddysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol i wrando'n astud ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau ei gilydd yn rhagorol.
- 204 Gwna'r holl ddysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol gynnydd da iawn yn eu medrau llafar. Gwelir hyn mewn ystod o weithgareddau traws cwricwlaidd pan

fo'r dysgwyr yn mynegi barn, dod i gasgliadau, cyfleu safbwyntiau a chyflwyno i eraill. Ran amlaf mae'r ymatebion yn cynnwys geirfa briodol a hynny yn ei hail iaith.

- 205 Yn CA 1 mae'r holl ddysgwyr, yn ôl eu gallu, yn gwneud cynnydd rhagorol yn y modd y meistrolant wahanol agweddau ar y broses o ddarllen. Darllenant â mynegiant da a defnyddiant wybodaeth seingol er mwyn adeiladu geiriau anghyfarwydd, ac yn amlach na heb, gwnânt hynny'n gywir. Mae dysgwyr CA 2 bron i gyd yn ddarllenwyr rhagorol sy'n darllen gyda rhuglder a lefelau uchel o fynegiant. Dônt yn gyfarwydd ag amrywiaeth ehangach o destunau ffeithiol a dychmygus yn CA 2 ac mae ganddynt uwch-fedrau darllen da iawn.
- 206 Mae'r dysgwyr ar draws yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn yn ystod cyfnod darllen ysgol gyfan. Mae'r mwyaf galluog yn datblygu ei sgiliau darllen trwy gynorthwyo eraill ac mae'r llai abl yn elwa o gymorth ac arweiniad y rhai gorau. Trwy'r profiadau hyn don't yn ymwybodol o wahanol ffynonellau print ac maent yn amlwg yn mwynhau darllen.
- 207 Mae'r mwyafrif yn siarad yn dda dros ben am yr hyn a ddarllenasant. Rhoddant resymau da dros fwynhau stori. Mae'r holl ddysgwyr ar ddiwedd CA 2 yn dda am ddiffinio a thrafod termau sy'n berthnasol i fyd llyfrau.
- 208 Mae'r dysgwyr yn CA1 yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn dda gan ddefnyddio sawl cyfrwng i gyflawni hyn. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o raglenni TGCh ac mae ei llawysgrifen ran amlaf yn daclus a dealladwy.
- 209 Mae'r mwyafrif ar draws y ddau gyfnod allweddol yn dysgu am gonfensiynau ysgrifennu gan gynnwys atalnodi. Mae eu defnydd o gystrawen er mwyn ysgrifennu at bwrpasau personol, ffeithiol a chreadigol yn dda iawn. Defnyddiant nifer o strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn sillafu geiriau cyfarwydd ag anghyfarwydd yn gywir. Mae eu gwaith ysgrifennu ar draws y ddau gyfnod allweddol mewn ystod eang o agweddau traws cwricwlaidd yn lan iawn o wallau sillafu.
- 210 Mae dysgwyr CA 2 yn enwedig, yn dewis a dethol gwahanol arddulliau i gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig o fewn eu themâu tymhorol gan gynnwys mynegi barn, darnau o farddoniaeth, llythyron, deialogau, storiâu byrion, disgrifiadau a rhestrau.

Diffygion

- 211 Nid oes diffygion pwysig ond er mwyn cyrraedd at ragoriaeth ar draws yr ystod o agweddau iaith mae angen ymestyn eto'r her i ddysgwyr unigol.

Saesneg

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 212 Nid yw'r dysgwyr yn dilyn rhaglenni astudio ffurfiol ar gyfer Saesneg nes cyrraedd CA 2.
- 213 Yn CA 2, mae medrau gwrando'r dysgwyr yn nodwedd ragorol. Mae medrau siarad y dysgwyr yn datblygu'n dda ac mae'r mwyafrif yn siarad gyda chryn hyder mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Siaradant yn glir a hyderus gydag oedolion a chymheuriaid eraill am eu gwaith a'u profiadau. Defnyddiant eirfa'n gywir i fynegi eu syniadau a'u safbwyntiau wrth gymryd rhan mewn trafodaethau grwpiau, parau a dosbarth cyflawn.
- 214 Darllena'r dysgwyr i gyd amrywiaeth o lyfrau addas ac arddangosant agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Mae'r darllenwyr gorau yn darllen yn rhugl a chywir gyda mynegiant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r testunau a ddarllenant. Mae gan yr holl ddysgwyr hoff awduron a gallant ddisgrifio nodweddion llyfrau a ysgrifennwyd ganddynt. Rhoddant wybodaeth dda am y llyfrau y maent yn eu darllen,
- 215 Mae'r dysgwyr bron i gyd yn meddu ar uwch-fedrau darllen da, sy'n eu galluogi i chwilio am wybodaeth o amryw ffynonellau megis y rhyngwyd a thestunau ffeithiol.
- 216 Ysgrifenna'r holl ddysgwyr mewn ffurfiau amrywiol ar gyfer pwrpasau gwahanol yn ôl eu hoed a'u gallu. Dangosant ddealltwriaeth dda o ffurfiau ieithyddol. Cyfansoddant waith creadigol a ffeithiol da. Trefnant eu gwaith ysgrifenedig yn baragraffau gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Defnyddia'r dysgwyr hynaf ferfau ac ansoddeiriau'n gywir a datblygant feistrolaeth ar gystrawen dda.
- 217 Mae sillafu ac atalnodi'r holl ddysgwyr yn dda iawn ac maent yn defnyddio nifer o strategaethau i'w cynorthwyo gan gynnwys defnydd o eiriaduron, ymateb i sylwadau'r athro a hunan gywiro.

Diffygion

- 218 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Mathemateg

Cyfnod allweddol 1:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 219 Mae gan ddysgwyr CA 1 wybodaeth dda am rifau sylfaenol ac maent yn adnabod bondiau a phatrymau rhif hyd at 20. Maent yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau gyda chywirdeb, ac yn adnabod eilrifau ac odrifau'n gywir. Maent yn adio a tynnu yn gywir ac mae gan y rhai hynaf wybodaeth dda am werth lle. Maent yn amcangyfrif yn effeithiol.

- 220 Mae'r dysgwyr CA1 yn adnabod darnau o arian o wahanol werthoedd ac yn mesur a phwyso gan ddefnyddio gwahanol unedau ansafonol. Maent yn gyfarwydd a ffracsiynau syml ac yn medru disgrifio patrymau amser syml a misoedd y flwyddyn.
- 221 Yn CA1 maent yn enwi a chyfatebu siapiau yn gywir ac yn disgrifio nodweddion gwahanol siapiau gan ddefnyddio iaith fathemategol gywir. Maent yn hyderus wrth enwi siapiau gwrthrychau bob dydd.
- 222 Mae llawer o'r dysgwyr yn cCA1 yn cymhwys eu gwybodaeth i ddatrys problemau syml yn gywir. Maent yn arddangos gwybodaeth a gasglwyd ganddynt ar ffurf graffiau a thablau yn dda. Mae'r dysgwyr yn ymateb yn briodol i dasgau sy'n ymwneud â mathemateg y pen.
- 223 Yn CA 2, mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio'r pedair rheol yn gywir. Mae gan y mwyafrif afael dda ar dablau llusgi ac maent yn ymateb yn gywir i dasgau gwaith yn-y-pen. Mae y dysgwyr i gyd yn defnyddio iaith a termau mathemategol ehangach yn dda a dod yn gynyddol mwy cywir wrth amcanu mesurau a meintiau.
- 224 Mae y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn casglu ystod o ddata, ei gyflwyno mewn tablau a graffiau a dod i ganlyniadau cywir sydd yn seiliedig ar eu gwaith. Mae'r dysgwyr i gyd yn medru darllen yr amser ar gloc digidol yn gywir. Defnyddir y wybodaeth hyn yn dda.
- 225 Mae mwyafrif y dysgwyr yn B3 a B4 yn medru darllen a dehongli amserlen ysgol yn gywir a creu amserlen eu hunain yn effeithiol iawn. Mae mwyafrif o ddysgwyr B5 a B6 yn darllen amserlen bysiau yn dda a defnyddio'r wybodaeth hyn i ddatrys problemau, sy'n ymwneud a pellter ac amser, yn gywir.
- 226 Ymn CA2 mae gwybodaeth y dysgwyr i gyd o siapiau dau a thri dimensiwn mwy cymhleth yn dda. Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr hyn yn mesur hyd, perimetr ac arwynebedd siapiau rheolaidd ac afreolaidd yn gywir.

Diffygion

- 227 Ni does diffygion pwysig ond ar brydiau yn CA 1 nid yw'r dysgwyr yn ymchwilio ar lefel uwch er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o gysyniadau.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 228 Mae gan y dysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol bron i gyd wybodaeth a dealltwriaeth dda o brosesau bywyd a pethau byw, o ddefnyddiau a prosesau ffisegol. Mae'r dysgwyr i gyd yn dangos ymwybyddiaeth, consyrn, gofal a chyfrifoldeb am bob peth byw a'r amgylchedd.

- 229 Mae'r dysgwyr yn CA1 a CA2 yn plannu planhigion yng ngardd yr ysgol ac cymeryd rhan mewn nifer o weithgareddau amgylchedol sydd yn atgyfnerthu eu sgiliau eu gwybodaeth, a'u dealltwriaeth o wyddoniaeth.
- 230 Yn CA 1 mae'r dysgwyr yn astudio defnyddiau, organebau a rhannau o'r corff. Maent hefyd yn defnyddio iaith a themau gwyddonol megis "pethau byw, synhwyr, tyfu, arogl, gweld chlywed" wrth iddynt ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda am nodweddion y corff.
- 231 Mae'r dysgwyr yn CA1 yn ymchwilio'n dda i briodweddau deunyddiau ac yn dod i farnau deallus am y deunyddiau gorau i'w defnyddio mewn cyd-destun perthnasol. Defnyddiant y broses wyddonol yn briodol gan ofyn cwestiynau fel "pryd? beth? sut? pwy? a ble?" i ymchwilio. Maent yn esbonio a cofnodi eu gwaith, trwy luniau neu graffiau syml, yn dda.
- 232 Mae'r dysgwyr i gyd yn CA1 yn ymgymeryd ag ymchwiliad i flasau amrediad o wahanol fwydydd yn dda. Mae'r dysgwyr i gyd yn ymchwilio er mwyn dosbarthu gwrthrychau i setiau tarddiad goleuni, neu beidio ganiatau tarddiad goleuni, ac wedyn yn cymharu dwy ffynhonnell golau a'u nodweddion, yn dda. Mae'r dysgwyr yn medru defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn gywir i gofnodi eu hymateb i broblemau.
- 233 Yn CA 2 mae sgiliau ymchwiliol y dysgwyr yn dda. Wrth arbrofi yn deg, defnyddiant offer yn gywir a gwnânt arsylwadau a mesuriadau cywir a'u cofnodi yn dda. Mae gan y dysgwyr bron i gyd wybodaeth dda o fwyta'n iach.
- 234 Yn CA2 mae dysgwyr hefyd yn cymeryd curiad eu calon ar ol rhedeg yn ddyddiol o amgylch yr iard er mwyn mesur eu ffitrwydd. Mae'r wybodaeth yn cael ei gofnodi ar raglen cyfrifiadurol er mwyn adolygu cynnydd yn ffitrwydd y dosbarth dros amser. Mae safon y gwaith yma yn dda ac yn rhan o gynllun Ysgolion Iach. Maent hefyd yn ymwybodol iawn o effaithiau ysmegu ar y corff.
- 235 Mae'r dysgwyr i gyd yn meddu ar wybodaeth dda iawn o symbolau trydanol. Mae'r mwyafrif yn medru tynnu diagram o gylched trydanol a'l ddehongli yn gywir. Mae eu sgiliau ymarferol yn dda ac maent yn arbrofi i greu cylchedau trydanol gwahanol. Maent yn gywir wrth ddefnyddio'r cyfarpar ac yn cofnodi a dehongli y patrymau yn arbennig o dda. Maent yn cwblhau tasgau arbrofol yn effeithiol. Defnyddia dysgwyr BI 5/6 ymchwiliadau ar y rhyngwyd i gynhyrchu cyflwyniad o ansawdd dda i'w cyfoedion ar arbed ynni.

Diffygion

- 236 Nid oes diffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 Da gyda nodweddion rhagorol.

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 1 Da gyda nodweddion rhagorol.

Nodweddion rhagorol

- 237 Yn y ddau gyfnod allweddol mae hyder y dysgwyr wrth ddefnyddio ystod o galedwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n dda igyda nodweddion rhagorol.
- 238 Yng CA1 mae'r dysgwyr yn defnyddio'r llygoden yn hyderus wrth wneud dewisiadau o ddewislen rhaglenni penodol, gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Gwnânt ddatblygiad da iawn wrth ddefnyddio'r bysellfwrdd, ac mae eu gallu i lwytho, cadw ac argraffu yn annibynnol yn rhagorol erbyn diwedd y cyfnod.
- 239 Mae dysgwyr CA1 yn datblygu sgiliau cyflwyno, rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn dda, gyda cyfran sylweddol yn llwyddo i wneud dewisiadau ynglyn a'r feddalwedd fwyaf addas ar gyfer tasg erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae hyn yn nodwedd rhagorol. Gwnant ddefnydd effeithiol o becynnau lluniadu i greu delweddau a pheth manylder, a llwyddant i gynhyrchu lluniau lliwgar gan eu cyfuno a thestun.
- 240 Yn CA2 mae'r dysgwyr yn effeithiol iawn wrth ddefnyddio pecynnau bas data i gasglu a chadw gwybodaeth er mwyn creu, a chynhyrchu graffiau at bwrpas amrywiol. Mae'r mwyafrif yn deall sut y gall taenlenni gael eu defnyddio i reoli gwybodaeth ac mae nifer dda ohonynt yn llwyddiannus wrth ofyn ac ateb cwestiynau "Beth pe bai ..?" gan ddefnyddio fformiwlaer er mwyn dod i benderfyniad. Mae hyn yn un o nodweddion rhagorol yn y pwnc. Maent yn deall, ac yn datblygu sgiliau modelu wrth ymdrin a pheynnau Logo i greu siapiau.

Nodweddion da

- 241 Erbyn diwedd CA1 mae mwyafrif y dysgwyr yn hyderus iawn wrth gyrchu lluniau o'r we a'u cyfuno gyda thestun a sain trŵy ddefnyddio 'Photostory'. Llwyddant i gasglu gwybodaeth, a'i gyflwyno ar ffurf data syml er mwyn creu graffiau. Gallent raglennu cyfres o orchmynion er mwyn gwneud i grwydryn ddilyn llwybr a gynlluniwyd a deallant bwysigrwydd sicrhau bod yn fanwl gywir wrth ddilysu cyfarwyddiadau.
- 242 Yn CA 2 mae mwyafrif y dysgwyr yn arddangos sgiliau annibynnol da wrth ddatblygu eu gallu i ymdrin a chyfarpar a meddalwedd, gan gynnwys camerau fidio, camerau digidol a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Ar draws y cyfnod allweddol mae eu gallu i agor a chau rhaglenni, i greu ffeiliau ar gyfer cadw, ad alw, diwygio ac argraffu eu gwaith yn datblygu'n dda iawn. Maent yn effeithiol iawn wrth gyfathrebu, rhannu a chyfnewid syniadau a gwybodaeth mewn amrywiol ffurfiau gan gynnwys graffiau, taenlenni a lluniau.
- 243 Mae'r dysgwyr ieuengaf yn CA2 yn defnyddio eu sgiliau prosesu geiriau yn addas i gyflwyno eu gwybodaeth. Gall y rhan fwyaf osod llun yn briodol a'i gyfuno gyda thestun. Maent yn llwyddo i luniadu yn effeithiol gan ddefnyddio pecynnau celf yn dda er enghraifft wrth astudio gwaith William Morris. Gwnant

ddefnydd hyderus o fas data er mwyn casglu a chadw gwybodaeth, a'i ddefnyddio i gynhyrchu graffiau.

- 244 Yn CA2 mae sgiliau'r dysgwyr hŷn i gyfathrebu gwybodaeth mewn amrywiol sefyllfaoedd a chan ddewis o ystod o becynnau meddalwedd yn dda. Gwnant ddefnydd effeithiol o becynnau masnachol i gyflwyno gan gyfuno llun, testun a sain yn effeithiol. Llwyddant i ddefnyddio becynnau lluniadu i gynhyrchu darnau o waith sy'n cefnogi eu gwaith celf.
- 245 Mae'r dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol yn datblygu sgiliau cynyddol wrth gyrchu'r we i gaffael gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Deallant yr angen i ddefnyddio'r we yn ddiogel.

Diffygion

- 246 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Dylunio technoleg

Cyfnod allweddol 1:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 247 Mae mwyafrif o'r dysgwyr yn CA 1 yn cynhyrchu gwaith o safon da ar y cyfan. Mae'r gwaith gorffenedig yn addas i'r diben ac maent yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau gwybodaeth i gynhyrchu syniadau.
- 248 Yn CA1 maent yn trafod briodweddau'r defnydd yn hyderus ac yn datblygu opsiynau cynllunio. Maent yn defnyddio geirfa dda i ddisgrifio nodweddion y deunyddiau, er engraifft " bregus", " anwastad", "tryloyw", " garw", "called" a "meddal".
- 249 Yn CA1 maent i gyd yn archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau er mwyn datblygu gwybodaeth am eu nodweddion yn dda. Maent yn edrych ar y deunyddiau sydd wedi eu defnyddio i adeiladu tai yn yr ardal leol. Maent yn arbrofi yn dda gyda deunyddiau gwahanol ar gyfer addurno roced a chreu murlun. Mae eu sgiliau gwneud yn datblygu'n dda.
- 250 Yn CA 2 mae mwyafrif y dysgwyr yn gallu cynllunio gwaith drwy gynhyrchu map meddwl ar sail trafodaethau grwp. Maent yn meddwl yn greadigol yn dda ac yn cofnodi unrhyw broblemau. Maent yn hunan werthuso eu gwaith yn effeithiol. Maent hefyd yn gallu egluro pa ffactorau sydd yn dylanwadu are eu dewis o fwydydd ar gyfer gwneud gwahanol fathau o frechdanau yn dda.
- 251 Mae'r dysgwyr yn CA2 yn cydweithio a rhannu syniadau yn dda iawn ar y cyfan. Maent yn cydweithio'n dda mewn grwpiau i gloriannu ei syniadau draft o' ffactorau iw gysidro wrth feddwl am deithio yn y gofod a'r deunyddiau sydd yn

briodol ar gyfer creu model o roced. Maent yn medru gosod cylchedau trydanol foltedd isel syml mewn cynhyrchion yn dda.

- 252 Yn CA2 arddengys y dysgwyr safonau da yn eu medrusrwydd wrth adeiladu modelau o roced gan ddefnyddio pecynau o ddeunyddiau masnachol. Atgyfnerthir eu gwybodaeth au dealltwriaeth drwy defnyddio effeithiol o sgiliau ymchwilio. Maent yn defnyddio ystod o ffynnonellau gwybodaeth gan gynnwys y rhyngwrwyd wrth ymchwilio a chynllunio eu gwaith.
- 253 Ar sail hyn mae dysgwyr B3 a B4 yn cynhyrchu taflenni o ansawdd da sydd yn cynnwys lluniau a gwaith ysgrifenedig disgrifiadol ar ofodwyr. Mae'r taflenni o safon da. Mae'r dysgwyr yn defnyddio sgiliau trawsieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg o ansawdd uchel. Mae'r sgiliau hyn yn dda iawn drwy'r dosbarth. Mae'r dysgwyr yn hunan werthuso yn dda ac yn ystyried ffordd o ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Diffygion

- 254 Nid oes diffygion pwysig ond nid yw'r dysgwyr yn cynhyrchu tasgau digon heriol ar brydiau.

Hanes

Cyfnod allweddol 1:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2:Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ni arsylwyd ar wers yn CA1

Nodweddion da

- 255 Yn y ddau gyfnod allweddol, maer' dysgwyr i gyd yn dyfnhau eu dealltwriaeth trwy ymweliadau addysgol i leoedd o ddiddordeb hanesyddol ac yn cyfoethogi eu profiad o'r CC.
- 256 Mae dysgwyr i gyd yn CA1 yn trafod eu gwaith yn dda ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o gronoleg trwy gymharu ffyrdd o fyw yn y gorffennol gyda'u bywydau heddiw. Maent i gyd yn llwyddo i drefnu lluniau o faban, plant o wahanol oeddrannau, ac oedolion mewn trefn oedran dros amser. Defnyddant eirfa treigl amser priodol a gallant osod digwyddiadau sydd yn ymwneud a'u hanes personol mewn trefn gywir.
- 257 Defnyddia dysgwyr CA1 hen artefactau o'r cartref, fel brwsh sgwrio a haearn smwddio i egluro y gwahaniaeth rhwng safonau byw yn y gorffennol a'u cymharu a'r bywyd cyfoes. Maent yn trafod y gwahaniaethau yn dda ac yn datblygu geirfa hanesyddol briodol. Mae ganddynt wybodaeth dda am gymeriadau hanesyddol fel Mari Jones.
- 258 Yn CA 2 mae sgiliau ymholi a defnydd o dystiolaeth y dysgwyr yn dda. Mae eu gwybodaeth am y gwahanol gyfnodau hanesyddol gan gynnwys gwybodaeth

am y Rhufeiniad a digwyddiadau chronolegol yn y cyfnod hwn yn dda. Mae ansawdd dda iawn i waith y dysgwyr ar y streic fawr yn chwareli'r gogledd ac maent yn ymwybodol iawn o'r terfysg cymdeithasol a ddigwyddodd yn y cyfnod.

- 259 Mae gandd ddysgwyr CA2 wybodaeth dda o brif nodweddion yr Ail Ryfel Byd ac maent yn datblygu ymwybyddiaeth dda o fywydau efaciwis au profiadau. Defnyddir y rhynggrwyd yn dda i ymchwilio ac mae'r dysgwyr i gyd yn cofnodi eu gwaith mewn amryw o ffyrdd diddorol.
- 260 Mae gallu y dysgwyr i ddadansoddi gwybodaeth ac i fynegi barn wedi datblygu'n dda erbyn B6.

Diffygion

- 261 Ni does diffygion pwysig, ond ar brydiau nid yw'r dysgwyr yn dangos digon o wybodaeth cefndirol am y rhesymau dros rhai o ddigwyddiadau hanesyddol.

Daeryddiaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

- 262 Yn CA 1 mae gwybodaeth y plant o 'r ardal leol a gwledydd eraill yn dda gyda nodweddion rhagorol. Dengys y mwyafriif wybodaeth dda o gyfeiriad, pellter a symbolau map syml. Llwydda y disgyblion i ddarllen cerdyn post oddi wrth Tedi, a oedd wedi teithio i wlad bell, sef Ghana.
- 263 Maent yn dyfalu'n llwyddiannus sut fath o wlad mae Tedi wedi mynd iddi ac yn defnyddio eu sgiliau meddwl yn effeithiol. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth o dywydd yn Ghana i resymu pa fath o ddillad a deunyddiau i bacio wrth ymweld â'r wlad honno.
- 264 Mae dysgwyr B 2 yn trafod pa wledydd a welir yn ystod y daith o Gymru i Ghana ac yn llwyddo i adnabod siapiau gwledydd gwahanol au' henwi yn ardderchog. Mae eu gwybodaeth o derminoleg daeryddol yn datblygu'n dda iawn.

Nodweddion da

- 265 Yn y ddau gyfnod allweddol mae'r dysgwyr yn dangos ymagweddau a gwybodaeth dda iawn ar y cyfan am newid amgylchedol a datblygiad cynaliadwy. Mae eu gwybodaeth o ddinasyddiaeth byd eang yn dda oherwydd y cyslltiadau rhwng yr ysgol ac ysgolion yn Tseina a Ghana.

- 266 Maent i gyd yn gofyn cwestiynau ymchwiliol yn dda. Mae'r dysgwyr i gyd yn dangos gwybodaeth gynyddol dda o sut mae gwahanol lefydd yn cysylltu a'i gilydd.
- 267 Yn CA 2 dengys y dysgwyr i gyd wybodaeth dda o wledydd gan gynnwys Cymru a gwledydd Prydain, Tseina a Ghana. Defnyddiant sgiliau ymchwiliol da i ddarganfod gwybodaeth am y gwledydd hyn.
- 268 Mae y dysgwyr i gyd yn defnyddio tystiolaeth llaw cyntaf athrawon, sydd wedi ymweld a Tseina a Ghana, yn dda. Yn ogystal defnyddiant ffynnonellau fel atlas, llyfrau, artefactau, a'r rhyngrwyd i ddatblygu gwybodaeth dda o dywydd, diwylliant a ffordd o fyw trigolion y gwledydd hyn.
- 269 Cyflwynant eu gwaith i ddysgwyr eraill yn y dosbarth drwy gynhyrchu posteri o ansawdd da yn dangos prif nodweddion gwledydd fel Ghana. Maent hefyd yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i gynhyrchu cyflwyniadau diddorol wrth iddynt rannu yr hyn maent wedi ei ddysgu gyda'i cyfoedion.
- 270 Mae eu sgiliau meddwl a'u sgiliau ymchwiliol yn dda iawn. Mae eu dealltwriaeth o derminoleg daearyddol yn dda.

Diffygion

Nid does diffygion pwysig

Celf a dylunio

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ni arsylwyd ar wers yn CA2

Nodweddion da

- 271 Mae dysgwyr y ddau gyfnod allweddol yn manteisio ar ystod eang o brofiadau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am artistiaid, crefftwyr a dylunwyr gan weithio ar amrywiaeth o gyfryngau.
- 272 Mae dysgwyr CA 1 yn siarad gydag awdurdod am Van Gogh, Cezanne a Syr Kyffin Williams ac yn creu peintiadau sy'n efelychu eu gwaith. Mae'r mwyafrif yn archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau wrth addurno roced a chreu murlun o Tedi yn y gofod. Maent yn cydweithio ag eraill i ddewis a dethol pa liwiau sy'n creu'r effeithiau gorau ac yn barod iawn i fynegi barn cyn dod i gytundeb.
- 273 Mae dysgwyr CA 1 yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn effeithiol iawn i greu lluniau o'r gofod ac yn trafod eu creadigaethau yn fedrus a manwl. Mae nifer fach yn defnyddio geirfa briodol wrth ddisgrifio eu gwaith. Maent yn darlunio

syniadau'n llawn mynegiant o'u cof, eu teimladau a'u dychymyg i greu campweithiau unigol dau a thri dimensiwn yn feunyddiol ac meant yn falch iawn o'r hyn a gyflawnir ganddynt.

- 274 Mae dysgwyr CA2 yn hyderus wrth drafod eu gwaith gan ddefnyddio geirfa briodol wrth wneud hynny. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am artistiaid fel William Morris, Peter Prendergast a Luned Rhys Parry gan efelychu eu technegau. Er engraifft wrth greu bortreadau o chwarelwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel siarcol, paent a phensel.
- 275 Maent dysgwyr CA2 yn ymfalchïo yn y gwaith a gyflawnwyd ganddynt o dan arweiniad artist lleol yn y Galeri yng Nghaernarfon. Defnyddiwyd geirfa briodol wrth ddisgrifio'r technegau i greu effeithiau dwr ar dirwedd ehangach.
- 276 Mae dysgwyr y ddau gyfnod allweddol yn dangos rheolaeth dda o wahanol gyfryngau gan gynnwys creonau, pastelau, paent, a phensiliau lliw i greu amrywiaeth o waith effeithiol dau a thri dimensiwn. Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia'r dysgwyr raglenni TGCh yn effeithiol i greu lluniau dychmygus a diddorol.

Diffygion

- 277 Nid oes diffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 278 Yn CA2 mae dysgwyr yn cyd drafod a chyd greu yn rhagorol wrth greu perfformiad gorffenedig. Ymgymmerant â'r tasgau hyn yn hyderus ac annibynnol gan arddangos cryn falchder yn y gwaith gorffenedig. Maent yn barod i fentro ac arbrofi gydag offerynnau traw gan dderbyn syniadau a sylwadau eraill yn adeiladol wrth firienio eu gwaith.

Nodweddion da

- 279 Mae rhan fwyaf y dysgwyr drwy'r holl ysgol yn arddangos cymhwysedd technegol a chywirdeb sy'n briodol i'w datblygiad, mewn perfformiadau lleisiol ac offerynnol. Maent yn canu amrediad o ganeuon yn y cyfnodau torfol ac yn dangos ymwybyddiaeth o frawddeg cywir, cyflymder a thraw.

- 280 Mae dysgwyr CA 1 yn perfformio'n hyderus gan ddefnyddio llais ac ystum i gyfleu ystyr. Maent yn cadw rhythmau yn gywir gan amlaf wrth berfformio ac yn deall pwrpas cryfhau a chyflymu i greu effaith. Maent yn medru archwilio amrywiaeth o ffynonellau sain gan ddethol offerynnau traw yn effeithiol ac yn greadigol er mwyn cynhyrchu cyfansoddiadau syml y maent yn eu perfformio i gyfleu teimlad a naws mewn llun.
- 281 Mae mwafrif dysgwyr CA 1 yn deall pwysigrwydd gwrando ar ei gilydd ac yn adolygu eu syniadau o ganlyniad i hynny.
- 282 Mae dysgwyr CA 2 yn arddangos sgiliau cerddorol aeddfed iawn. Maent yn gwrando ar ei gilydd wrth berfformio fesul grwpiau bach, yn dilyn canllawiau cerddorol, yn gwerthuso a chynnig syniadau yn adeiladol gan ddefnyddio geirfa gerddorol briodol.
- 283 Yn CA2 mae dysgwyr I gyd yn mwynhau dilyn curiadau, arwain a chyfarwyddo yn ystod y wers ac yn y gwasanaethau torfol. Llwyddant i ddilyn cyfarwyddiadau cerddorol ar bapur yn gywir wrth ganu a chadw curiad i gân Affricanaidd.

Diffygion

- 284 Nid oes diffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

- 285 Mae dysgwyr ar draws CA 1 a CA 2 yn arddangos sgiliau rhagorol wrth ymateb i symbyliadau cerdd mewn dawns, rheolaeth o'r corff, dyfalbarhad fel unigolion a chydweithio gyda phartner. Maent yn mireinio sgiliau, yn gwerthuso eu perfformiadau ac yn gwella mân frychau trwy gydol eu perfformiadau. Dangosant hefyd aeddfedrwydd personol aruchel wrth gynorthwyo ei gilydd a gwerthfawrogi ymdrechion eraill.

Nodweddion da

- 286 Mae dysgwyr CA 1 i gyd yn datblygu ac yn atgyfnerthu eu medrau a'u technegau mewn dawns gan ddangos rheolaeth gynyddol o'u cyrff wrth berfformio symudiadau. Maent yn defnyddio pob rhan o'u corff yn briodol gan symud yn ysgafn a chreadigol ar wahanol lefelau a chreu rhediad o symudiadau i greu perfformiadau dychmygus a theimladwy iawn i gyfleu'r pypedwr wrth ei waith. Maent hefyd yn ymwybodol o ofod gan ystyried gofynion eraill yn ogystal â'u hunain.
- 287 Mae dysgwyr y ddau gyfnod allweddol i gyd yn gwisgo'n addas yn y gwersi ac yn gweithio'n egniol dros gyfnodau estynedig. Dilynant gyfarwyddiadau'r

athrawes yn fanwl gan arddangos dealltwriaeth dda o ofynion y gweithgareddau dan sylw ac o'r disgwyliadau o ran ansawdd eu perfformiad.

- 288 Mae ymwybyddiaeth dysgwyr y ddau gyfnod allweddol o effeithiau llesol ymarfer ar y corff, yn dda iawn. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd cynhesu'r corff cyn cychwyn gwaith egniol.
- 289 Mae'r dysgwyr CA 2 yn manteisio ar raglen addysg gorfforol eang gan gynnwys gweithgareddau awyr agored ym Mhlas Menai, Gwersyll Glan Ilyn, nofio, gymnasteg ac athletau ac yn datblygu sgiliau da. Maent yn ystyried y maes fel rhan annatod o'u bywyd bob dydd ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig wrth ymarfer ar gyfer gweithgareddau a chystadlaethau lleol.

Diffygion

- 290 Nid oes diffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

- 291 Mae sgiliau dysgwyr ar draws y ddau gyfnod yn rhagorol wrth fynegi barn. Mae eu hadnabyddiaeth o arteffactau crefyddol hefyd yn nodwedd ragorol. Dangosant ymdeimlad cryf o barch a chariad tuag at eraill ac ymgorfforir hyn yn llawn yn eu bywyd bob dydd.
- 292 Yn CA 1 mae'r dysgwyr yn enwi arteffactau yn ardderchog ac mae'r mwyafrif o'r rhai hyn yn defnyddio eu sgiliau meddwl yn ardderchog i ddyfalu i ba grefydd mae'r arteffactau yn perthyn ac egluro yn eglur i eraill. Mae'r mwyafrif ar draws y cyfnod yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o barchu credoau eraill.
- 293 Wrth ymweld â lleoedd addoli yn yr ardal, datblyga'r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath, megis bedydd a phriodas. Mae ganddynt wybodaeth dda iawn o rai o brif hanesion y Beibl.
- 294 Yn CA 2, mae'r dysgwyr yn datblygu medrau ymresymu a dysgu trwy gyfrwng eu hastudiaeth bellach o grefyddau'r byd, ac maent yn agored eu meddwl a chadarnhaol tuag at bobl sydd â chredoau gwahanol. Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol sy'n codi o ddydd i ddydd. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau
- 295 Mae'r dysgwyr yn arddangos ymagweddau cadarn iawn tuag at bwysigrwydd gofalu am y byd a gofal Duw. Maent i gyd yn sylweddoli'r pwysigrwydd o edrych ar ôl yr amgylchedd.

Diffygion

296 Nid oes ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

- 297 Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Bodfeurig yn ymfalchio yn yr adroddiad gadarnhaol iawn a dderbynwyd yn dilyn yr arolygiad. Mae cynnwys yr adroddiad yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud a'r Ysgol.
- 298 Roedd yr arolygiad yn broses agored a gonest a chafwyd deialog broffesiynol a sylwadau ag argymhellion adeiladol gan yr arolygwyr.
- 299 Gwerthfawrogir yn fawr y farn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth ymateb i'r arolygiad blaenorol yn 2004. Mae cyrraedd sefyllfa ble mae'r dysgwyr o bob oed yn cyrraedd safonau da a gwell ym mhob maes yn galondid mawr, ond mae hefyd wrth gwrs yn gosod her newydd wrth i'r ysgol anelu at gynnal a gwella ar y safonau hyn eto.
- 300 Mae'r ysgol yn ymfalchio yn y ganmoliaeth uchel a roddwyd i ansawdd uchel yr addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r profiadau eang a gyflwynir i'r dysgwyr. Cydnabyddir medrusrwydd ac arbenigeddau'r athrawon a chafwyd cadarnhad bod safon uchel o broffesiynoldeb a chyd-weithio drwy'r ysgol.
- 301 Mae staff a llywodraethwyr yr ysgol yn hynod o falch fod addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gofal am yr amgylchedd a chadw'n iach yn ragoraeth amlwg fel hefyd mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r dysgwyr.
- 302 Rhoddodd yr arolygiad gyfle i'r ysgol edrych yn fanwl ar bob agwedd o'i bywyd a'i gwaith, ac roedd paratoi'r adroddiad hunan arfarnu yn gaffaeliad mawr. Amlyga'r adroddiad nad oedd yr ysgol wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'w nodweddion rhagorol wrth ddod i farn ar gwestiwn 5 a gwerthfawrogir barodrwydd y tîm i ddyfarnu gradd uwch yn yr achos hyn.
- 303 Llunnir cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion yr arolygiad ac fe gynhwysir yr agweddau hyn yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Bodfeurig
Math o ysgol	Cynradd
Ystod oedran y dysgwyr	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Tregarth, Gwynedd.
Cod post	LL57 4RH
Rhif ffôn	01248 600760
Pennaeth (mewn gofal)	Mrs Meriel Parry
Dyddiad penodi	Medi 2003
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Mary Hayes
Arolygydd cofrestredig	Mr Gareth Wyn Jones
Dyddiadau'r arolygiad	27/04/10 i 29/04/10

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y dysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y dysgwyr	1.5	7	7	6	4	1	3	5	34.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	1(Pennaeth0 .5)	2.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb dysgwr: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	16.1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	-
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	16
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:16

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2010	100.0%	95.3%	96.9%
Hydref 2009	99.3%	96.4%	96%
Haf 2009	99.6%	95.9%	94%

Canran y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	12%
Nifer y dysgwyr a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y dysgwyr yn B2	4
Gan fod nifer y dysgwyr a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Canran y dysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	75	Yng Nghymru	81

D Dysgwyr sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Dysgwyr sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y dysgwyr yn B6	3
Gan fod nifer y dysgwyr a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Canran y dysgwyr yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl aseiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	100	Yn yr ysgol	
Yng Nghymru	77	Yng Nghymru	

D Dysgwyr a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Dysgwyr sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Dysgwyr sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Dysgwyr sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd ddau arolygydd gyfwerth â chwe diwrnod arolygu yn yr ysgol, gan gyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad. Ymunodd asesydd cymheiriaid â'r tîm yn ogystal. Y pennaeth oedd yr enwebai.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â'r canlynol:

dwy ar hugain o wersi neu rannau o wersi;
sesiynau cofrestru, a gwasanaethau; a hefyd

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
uwch-reolwyr, athrawon, staff cynorthwyol a gweinyddol;
grwpiau o ddysgwyr a oedd yn cynrychioli pob grŵp oed;
y cyngor ysgol; a hefyd
cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Hefyd, ystyriodd y tîm:

adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
saith o ymatebion i holiadur y rhieni gyda 100% yn bositif;
dogfennaeth a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr
arolygiad;
ystod eang o waith cyfredol a blaenorol dysgwyr; a hefyd
samplau o adroddiadau dysgwyr.

Wedi'r arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda staff addysgu, uwch-reolwyr a llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Gareth Wyn Jones Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, crynodeb, argymhellion ac atodiadau. Cwestiynau Allweddol 1, 5, 6 a 7. Gwyddoniaeth, mathemateg, dylunio a thechnoleg, TGCh, Hanes a daearyddiaeth.
Owenna Davies Arolygydd Tim	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4. Plant dan-bump, Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg (CA 2), celf, addysg gorfforol ac addysg grefyddol
Dylan Jones Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at Gwestiynau Allweddol 1, 3 a 4
Delyth Jones Asesydd Cymheiriad	Arsylwi ar wersi a chyfraniad i gyfarfodydd tîm.
Meriel Parry (Pennaeth mewn Gofal)	Enwebai

Cydabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, pennaeth, aelodau'r staff a dysgwyr am eu cydweithrediad a chwarteisi yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:

E.L.L.I.S. (Cymru) Cyf
Canolfan Fusnes Jasmine
Uned 1
Heol Treseder
Caerdydd
CF5 5BQ